# CYNGOR CYMUNED LLANBERIS

**COFNODION CYFARFOD MIS HYDREF 2020:**
Cofnodion Cyfarfod y Cyngor ar Zoom am 7 y.h. nos Fercher 14 Hydref, 2020**.**
Estynwyd croeso i'r aelodau newydd: Kim Jones, Claudia O'Donnell a Llinos Haf Pritchard a phawb arall oedd yn bresennol gan resynu ein bod yn ôl ar Zoom (a drefnwyd gan RhaG) wedi dim ond un cyfarfod yn Y Ganolfan. Bellach mae aelodaeth y Cyngor yn gyflawn.

**1 PRESENNOL ac YMDDIHEURIADAU:**
***Ward Padarn:*** Rhys ap Gwilym (Cadeirydd), Olwen Gwilym, Iwan Harding, Bethan Holding, Heather L Jones, Kim Jones, Cyng. Kevin Morris Jones, Claudia O'Donnell, Helen Sharp.
***Ward Peris:*** Iola Owen, Llinos Haf Pritchard. Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).
***Ymddiheuriadau:*** Gwilym Evans, Trystan Thomas.

**2 DATGAN BUDDIANT:**
Cofnodir, os yn berthnasol, o dan y gwahanol benawdau.

**3 CADARNHAU COFNODION:**
Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fercher 9 Medi, 2020 fel rhai cywir ac fe'u harwyddwyd gan y Cadeirydd. Cynnig ac eilio: OG / KMJ

**4 MATERION YN CODI O'R COFNODION:**
***1. Cynllun Cyfaill:***
Y ffôn yn dal ar gael, ond neb yn galw am gymorth. Os bydd cyfngiadau a chloi eto yna bydd ar gael i ateb galwadau am gymorth.
***2. Cae UEFA:***
Roedd y Clerc wedi edrych yn ofalus ar wyneb y cae. Mae un darn crwn fwy neu lai rhyw lathen o led angen ei drwsio. Addawodd y Clerc holi i weld sut i fynd ati i drwsio'r darn.
***3. Torri Gwair:***
Penderfynwyd rhoi cydnabyddiaeth i'r cyfaill oedd yn torri'r gwair yn rhad ac ddim ar ben gorllewinol Llanberis wrth y fynedfa o'r ffordd osgoi.
***4. Llinellau Melyn:***
Adroddwyd fod rhai o'r llinellau melyn yn dal heb eu hadnewyddu yn Llanberis. Cyfeiriwyd at Strydoedd Thomas a Goodman. Yn dilyn rhoi wyneb newydd ar y ffordd yn Nantperis roedd y gwaith wedi ei gwblhau.
***5. Ffordd A4086 a Llifogydd:***
Chafwyd dim atebion i lythyrau a anfonwyd at CG mewn perthynas a llifogydd a'r pryder am i'r ffordd gael ei hail wynebu rhwng Llanberis a'r Nant na fyddai'r broblem yn cael ei datrys.
***6. Parcio Tacsis:***
Yn yr un modd chafwyd dim ateb chwaith i lythyr yn nodi fod Tacsis rhai cwmniau yn parcio'n anghyfreithlon ar linellau melyn dwbl ger cyfnewidfa bysiau Dôl y Goeden. Yn ogystal roedd y Clerc wedi rhoi gwybod fod to un o gysgodfeydd CG yn yr un safle angen ei drwsio.
***7. Lampau Stryd:***
Roedd yn coed yn dal heb eu tocio ond roedd KMJ wedi cysylltu'n ddiweddar a swyddogion CG i'w hatgoffa fod y gwaith heb ei gwblhau.
***8. Llwybrau:***
Diolchwyd i GE am gynnal arolwg o'r llwybrau y bu son am ddiffygion arnynt fis yn ôl, ond gan nad oedd GE yn bresennol penderfynwyd trafod y mater yn y cyfarfod nesaf.

**5 MATERION ERAILL:**
***1. Coed Nadolig a goleuadau:***
Penderfynwyd archebu'r coed Nadolig arferol ar gyfer y ddau bentref a goleuo rhyw dair neu bedair coeden naturiol ym mhen dwyreiniol Llanberis.
***2. Cae Chwarae Min y Llyn:***
Cafwyd adroddiad gan y Clerc fod Arolygydd o gwmni yswiriant y Cyngor wedi nodi fod rhyw bump o ddiffygion ar yr offer cwrs antur pren. Cyngor ac nid gorfodaeth i adnewyddu a gafwyd gan yr arolygydd, ond roedd y mater angen sylw, er nad yn fater brys. Trefnwyd cyfarfod rhwng y Clerc, peiriannydd CG a swyddog o gwmni (McVPA a allai wneud y

gwaith coed a chafwyd dau bris. Am drwsio'r offer diffygiol £5,200 + TAW ac adnewyddu'r holl gwrs £13,900+TAW. Dewiswyd panel yn cynnwys RhaG, CO'D, LlHP a KJ a'r Clerc i gyfarfod ac ystyried y ddau ddewis ac adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf. Byddai angen ystyried fod dirywiad pellach yn debyg yng ngweddill yr offer yn y dyfodol, felly byddai angen pwyso a mesur sut i symud ymlaen. Yn ôl KMJ fe allai fod arian fel grant ar gael oddi wrth gwmni First Hydro ar gyfer cynllun cymunedol. Gofynnwyd i KMJ holi'r cwmni a fyddai'r cae chwarae yn addas i'w ystyried ar gyfer gwneud cais. Nodwyd gan CO'D nad oedd unrhyw offer addas i blant o dan 5 yn y cae chwarae a gofynnodd a ddylai hynny fod yn ystyriaeth ar gyfer y dyfodol. Soniwyd fod y Cyngor yn y gorffennol wedi bod yn son am gynnwys rhywbeth ar gyfer plant methedig pan benderfynnir adnewyddu'r trên bach yn y gornel, ond mae hyn o fewn ffiniau'r cae yn hytrach na'r tu allan lle mae'r cwrs pren. Penderfynwyd sefydlu panel: RhaG, CO'D, KJ a LlHJ.

***4. Llwybr Nant Ucha'***

Er y mân drwsio mae'r llwybr coed yn dal i ddirywio. Bydd angen cysylltu eto a CG.

***5. Sul y Cofio:***

Wedi trafodaeth penderfynwyd oherwydd Covid-19 a chyfyngu pellach posib ar symudiadau i beidio cynnal gwasanaeth Sul y Cofio ar fore'r 8fed o Dachwedd. trefnir i fiwglwr chwythu ei gorn am 11 i ddynodi 2 funud o dawelwch. Yna gosodir torch y Cyngor gan yr BH (Is gadeirydd). Bydd rhydid i bawb arall wneud fel y mynno, ond gan gadw mewn cof reolau cymdeithasol. Dywedodd y Clerc y byddai'n gosod nodyn am y trefniadau ar Wefan y Cyngor, ar yr hysbysfyrddau a'r cyfryngau cymdeithasol, ynghyd â gwybodaeth lle i gael torchau yng Nghaernarfon. *(Tri prynhawn yn yr Institiwt, Caernarfon dydd Mawrth i ddydd Iau yr wythnos flaenorol rhwng 2 a 5 o'r gloch)*.

**6 GOHEBIAETH:**

***1. Cerflun / Cofeb y Chwarelwyr:***

Daeth llythyr oddi wrth Gwilym Roberts, Caerdydd (teulu Lôn Bost) yn cynnig £3,000 tuag at greu gwaith i gofio chwarelwyr y fro. Mae'r arian yn cael ei gynnig i'r Cyngor Cymuned yn ddiamod tuag at greu gwaith celf o bwys yn yr ardal a fyddai'n coffáu'r chwarelwyr a'r diwydiant a fu mor allweddol i ddatblygu'r gymuned yn nyffryn Peris. Mynegwyd gwerthfawrogiad gan sawl un, gan bwysleisio pa mor hael oedd y cynnig.
Mae'r mater wedi cael ei drafod o'r blaen, gyda chymorth fel hyn a chyfraniad posib oddi wrth Cynllun LleChi (i greu Ardal Treftadaeth UNESCO) cytunwyd y byddai'n ddechrau eithriadol i sefydlu cronfa i gwblhau'r gwaith. Rhybuddiwyd y byddai angen cryn swm o arian os am sicrhau gwaith celf o werth parhaol. Nodwyd fod peth gwaith wedi ei wneud i gofio'r diwydiant ym Mlaenau Ffestiniog, ac awgrymodd y Clerc mai da o beth fyddai gweld beth a wnaed mewn ardaloedd eraill gyda llechi a diwydiannau eraill. Penderfynwyd y dylid sefydlu is bwyllgor i ystyried sut i ddechrau'r gwaith i gael y maen i'r wal a chynigiwyd IH, HLJ, KMJ a HS fel aelodau. Roedd y Clerc o'r farn y dylid trafod y mater gyda Gwenan Pritchard, Cydlynydd Llechi Cymru o Adran Economi a Chymuned CG i holi am gymorth a syniadau ac i weld beth osodwyd mewn ardaloedd eraill.

***2. Diffodd Lampau Stryd:***

Cais gan CG am wybodaeth a oedd angen cadw golau 4 lamp yn Nantperis yn y lleoliadau yma - ger Yr Hafod, Tan Gadlas, Ty'n Ffynnon a Penbryn. Dywedodd y Clerc ei fod o'r farn nad oedd pwrpas i un Yr Hafod (2 furddyn), ond cytunwyd fod y lleill yn ddefnyddiol. Nododd nad oedd yr un ger Tan Gadlas yn gweithio ac y byddai'n rhoi gwybod i CG.

***3. Maes Parcio Gwesty Victoria, Llanberis:***

Roedd y Clerc wedi derbyn cwyn arall gan ymwelydd oedd wedi parcio a thalu, ond wedyn wedi cael llythyr yn hawlio dirwy gan fynny nad oedd perchennog y car wedi talu. Dywedwyd fod hyn yn adlewyrchu ar y pentref a gofynnwyd i'r Clerc gael gair a'r rheolwr yn y gwesty. Roedd y Clerc wedi cysylltu a'r achwynwr gan nodi fod nifer o feysydd parcio eraill yma, lle mae'r arian yn mynd yn uniongyrchol i gynnal seilwaith y fro, unai trwy'r Ganolfan neu CG.

***4. Torri Coed a llifogydd:***

Derbyniwyd nifer o lythyrau ac ebyst oddi wrth Ron Boyle o Roscefnhir ym Môn mewn perthynas a llifogydd yn ardaloedd Llanberis, Beddgelert ac Abergwyngregyn. Roedd y cyfaill wedi ysgrifennu at nifer o gyrff cyhoeddus yn holi am wybodaeth a oedd llifogydd niferus y blynyddoedd diweddar yn gysylltiedig a thorri coed o ran coedwigaeth a chlirio rhododendron. Roedd ef o'r farn fod cysylltiad pendant ac wedi anfon at nifer o gynghorau cymuned i ofyn hefyd am ymateb. Dywedodd y Clerc iddo gysylltu yn ôl i nodi na fu unrhyw gwympo na chlirio coed na rhododendron yn y plwy yma, ac mai rhesymau eraill oedd yn gyfrifol am y llifogydd. Roedd honno yn farn a dderbyniwyd.

**7 CYNLLUNIO:**

- **NP3/15/LB80D -** *Caniatâd Adeilad Rhestredig i drosi, addasu ac estyniad i'r garej i greu anecs sy'n gysylltiedig gyda'r tŷ*
- **NP3/15/LB80C -** *Trosi, addasu ac estyniad i garej i greu anecs sy'n gysylltiedig a'r tŷ* - **Glandwr, Llanberis** - Dim sylw
- ***C20/0806/15/DT -*** *Codi porth blaen, porth car ar y talcen ac estyniad deulawr yn y cefn* - **45 Maes Padarn, Llanberis** - Dim sylw.

**8 MATERION ARIANNOL:**
**1) Yn y Banc ar yr 28ain o Fedi, 2020**
**Cyfrif Cyfredol**: £28,201.46 **Cyfrif Cadw**: £5,365.70

**2) Cadarnhawyd y taliadau canlynol:**
**CYFANSWM … … £6,835.20**

**3) Arian a dderbyniwyd rhwng 29/08/2020 a 28/09/2020:**
**CYFANSWM … … £470.05**

Cynnig ac eilio: KMJ / OG

**9 LLWYBRAU**
Cafwyd adroddiad llwybrau gan GE trwy gyfrwng ebost, ond gan nad oedd yn bresennol penderfynwyd rhoi'r adroddiad ar raglen mis Tachwedd.

**10 Y FYNWENT:**
Gofynnwyd i'r Clerc atgoffa DWL fod angen un torriad ar Fynwent yr Eglwys.

**11. ADRODDIADAU ALLANOL:**
**Y Ganolfan:**
Roedd iddi gau yn unol a rheolau Llywodraeth Cymru gyda Covid-19, ond roedd Yr Ysgol Feithrin yn dal ar agor heb gysylltiad a gweddill yr adeilad. Adroddwyd fod y pwyllgor wedi gwrthod caniatau i fusnesau gynnal gweithgaredd yno. Dywedwyd mai canolfan ar gyfer y gymuned a mudiadau lleol oedd Y Ganolfan nid un ar gyfer busnesau. Roedd y pwyllgor wedi, ac yn, caniatau i'r Ganolfan Feddygol a mudiad St Ioan i ddefnyddio'r Ganolfan o dan reolau cyfredol y pandemig.

**12 CYFARFOD NESAF:**
Dyddiad y cyfarfod nesaf yn Y Ganolfan os bydd amgylchiadau yn caniatau. 7 y.h. Nos Fercher 11 Hydref, 2020.

**Arwyddwyd a chafwyd yn gywir:**

Cadeirydd: Rhys ap Gwilym

Clerc: Dei Tomos Dyddiad 11 Tachwedd, 2020.

***3/3***